Gwerthuso hyfywedd a chynllunio ar gyfer rheoli coedlan

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso hyfywedd rheoli coedlan yn erbyn amcanion penodol a chynllunio cynhyrchu.

Gallai'r amcanion gynnwys hyfywedd ariannol, marchnadoedd posibl ar gyfer cynhyrchion, lleoliad, rheoli cynefin a chynaliadwyedd.

Bydd angen i chi ystyried unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar y gwaith, e.e. safleoedd dynodedig, presenoldeb strwythurau rhestredig, bywyd gwyllt, rhywogaethau estron goresgynnol neu rywogaethau gwarchodedig, ac ati.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio unrhyw ofynion statudol a allai fod ar waith a all atal neu osod amodau ar y gwaith i'w gyflawni a chadarnhau bod pob caniatâd a thrwydded ofynnol wedi'i sicrhau
2. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
3. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gweithgarwch arfaethedig
4. nodi'r cymysgedd o rywogaethau ac oedran tybiedig y goedlan
5. nodi nodweddion, cyfyngiadau a pharamedrau'r safle
6. nodi marchnadoedd a/neu ddefnydd ar gyfer deunyddiau wedi'u prysgoedio
7. nodi nodweddion y goedlan
8. penderfynu ar amcanion y safle a chytuno arnynt
9. nodi a chofnodi'r cnwd cynaliadwy y mae ei angen i fodloni'r amcanion
10. gwerthuso hyfywedd bodloni'r amcanion y cytunwyd arnynt
11. dewis telerau ac amodau priodol ar gyfer cytundebau rheoli'r goedlan
12. llunio cynlluniau a rhagolygon cynhyrchu yn erbyn data sydd ar gael
13. cynllunio a gwerthuso amserlen waith effeithiol yn ôl amcanion y cytunwyd arnynt

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau chi o dan y ddeddfwriaeth a’r codau ymarfer iechyd a diogelwch perthnasol
2. sut i nodi peryglon ac asesu risgiau’r safle a’r gweithgaredd arfaethedig
3. y ddeddfwriaeth a’r codau ymarfer, safonau a chanllawiau’r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy’n berthnasol i’ch maes gwaith ac y mae’n rhaid i chi gadw atynt
4. sut i nodi rhywogaethau sy’n cael eu prysgoedio’n gyffredin yn yr haf a’r gaeaf
5. arfer da o ran prysgoedio bôn
6. y ffactorau sy’n effeithio ar adfywio coedlan
7. gwahanol ddulliau o fesur cyfaint pren/coedlan pan fydd y cnwd yn sefyll a phan fydd wedi’i gwympo
8. y dulliau o gyflawni cnwd cynaliadwy
9. effeithiau cadw coed canopi safonol a’u heffaith ar y goedlan
10. effeithiau cymysgeddau o rywogaethau ar gnydau
11. sut i amddiffyn coedlan rhag difrod gan anifeiliaid
12. y dyfeisiau a all helpu i gynhyrchu cynnyrch coedlan, neu gyflymu hynny
13. y meini prawf ar gyfer trwydded cwympo
14. pwysigrwydd rheoli coedlan i fioamrywiaeth
15. cyfarwyddebau cynefin sy’n rheoli gweithrediadau coetir
16. sut i lunio cynlluniau cynhyrchu ac amserlenni gweithio
17. pwysigrwydd cynllunio a gwerthuso amserlenni gweithio effeithiol yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt
18. effaith bosibl y gwaith ar y safle a’r ardal gyfagos a sut gellir lleihau’r effaith hon

## Cwmpas/Ystod

**Gallai amcanion gynnwys:**

- hyfywedd ariannol
- marchnadoedd posibl ar gyfer cynhyrchion
- lleoliad
- bioamrywiaeth
- rheoli cynefin
- cynaliadwyedd

Gwerthuso hyfywedd a chynllunio ar gyfer rheoli coedlan

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw51 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Cadwraeth, Gweithiwr Ystâd, Ceidwad, Garddwriaeth, Prysgoedio |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Geiriau Allweddol** | coedlan; prysgoedio |